

CYNGOR BRO MORGANNWG
GORCHYMYN (GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A
LLWYTHO A PHARCIO)
(GORFODI SIFIL) (DIWYGIAD) (RHIF 7A) 2020

1. Ar 3 Rhagfyr 2020 gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffordd 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, Orchymyn i osod a diddymu'r Mannau Parcio i Bobl Anabl a nodir yn yr atodlen isod.
2. Bydd y Gorchymyn yn dod i rym ar 14 Rhagfyr 2020 neu ar y dyddiadau y caiff yr arwyddion a'r marciau ffordd eu tynnu neu eu gosod, p'un bynnag sydd hwyrac ac fe'i gelwir yn "Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) (Diwygiad) (Rhif 7A) 2020"
3. Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a chynlluniau yn dangos yr ardal yr effeithir arni ar wefan y Cyngor yn www.bromorgannwg.gov.uk
4. Os dymunwch gwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaethau ynddo ar y sail nad yw'n unol â'r pwerau a ddyfarnwyd gan y Ddeddf uchod neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gallwch, o fewn chwe wythnos wedi 14 Rhagfyr 2020 wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwn.

Bwriedir diwygio'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig canlynol fel a ganlyn:

Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) 2013

ATODLEN

Penderfyniad arfaethedig i ddileu'r man Aros Cyfyngedig, dydd Llun i ddydd Sadwrn, 8am tan 6pm, 2 awr dim dychwelyd o fewn 2 awr, ac eithrio Deiliaid Trwydded i Breswylwyr a chreu Man Parcio i Bobl Anabl yn lle

Morel Street, Y Barri (86) (AU53)

Ar ochr y gogledd-ddwyrain o'r ffin rhwng eiddo rhifau 84 a 86 tua'r gogledd-orllewin am 5 metr.

Dyddiad: 10 Rhagfyr 2020.
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg,
Depo'r Alps, Gwenfô, CF5 6AA